Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.08.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RHEOLIADAU: Hwb bwyta al fresco i fusnesau

Mae newidiadau dros dro a gyflwynwyd yn ystod COVID-19 sy'n ei gwneud hi'n gyflymach, yn haws ac yn rhatach i fusnesau gael trwydded i weini bwyd a diod ar balmentydd a ffyrdd i gerddwyr wedi cael eu hymestyn. Bydd yr estyniad yn parhau hyd nes bydd y newidiadau'n cael eu gwneud yn barhaol yng ngwanwyn 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/al-fresco-dining-boost-for-businesses

# ADNODDAU: App Crwydro Arfordir Cymru – Adnodd i fusnesau ar yr arfordir ac ymwelwyr

Mae Crwydro Arfordir Cymru yn ap dwyieithog am ddim sy’n helpu defnyddwyr arfordirol yng Nghymru i ddarganfod, mwynhau a pharchu’r arfordir. Mae wedi’i gynllunio i alluogi ymddygiad cyfrifol ar yr arfordir a lleihau aflonyddwch mewn bywyd gwyllt, ac yn adnodd defnyddiol i fusnesau arfordirol ac ymwelwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://wildseas.wales/cy/pages/wales-coast-explorer

# CEFNOGAETH: Cefnogi gweithwyr drwy’r argyfwng costau byw

Hyd yn oed os na allwch fforddio cynnig codiadau cyflog sy’n curo chwyddiant, mae llawer y gallwch ei wneud o hyd i leddfu’r straen a’r pryder y gall eich gweithlu’n ei wynebu. Mae CIPD (Chartered Institute of Personnel and Development) wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ymarferol i gyflogwyr i gefnogi eu gweithwyr drwy’r argyfwng costau byw. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.cipd.co.uk/knowledge/culture/well-being/cost-living-crisis

# YMGYNGHORIAD: Ymgynghoriad Strategaeth Arloesi i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru’n gofyn am farn parthed drafft strategaeth arloesi Cymru. Mae dogfennau’r ymgynghoriad a manylion am sut i gymryd rhan ar gael ar:

https://llyw.cymru/strategaeth-arloesi-i-gymru

# IECHYD A DIOGELWCH: Cadw ymwelwyr a Chymru'n ddiogel yr haf hwn

Gall busnesau twristiaeth ddarganfod sut i helpu gwesteion ac ymwelwyr i fod yn fwy diogel yn yr awyr agored yr haf hwn trwy ymweld â:

https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/arhoswch-yn-fwy-diogel-yn-yr-awyr-agored

Gall busnesau hefyd helpu i achub bywydau drwy hyrwyddo negeseuon diogelwch dŵr allweddol mewn cymunedau lleol drwy gymryd rhan yn nghynllun llysgenhadon dŵr lleol yr RNLI, ewch i:

https://rnli.org/support-us/volunteer/volunteering-opportunities/rnli-local-ambassador

# BREXIT: Busnesau mewn perygl o golli gallu i fewnforio nwyddau

Mae'n rhaid i fusnesau sy'n cyflwyno datganiadau mewnforio ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau o 1 Hydref 2022, pan fydd y system Tollau ar gyfer Trin Nwyddau a Gaiff eu Mewnforio a'u Hallforio (CHIEF) yn cau ar gyfer datganiadau mewnforio, a dylent wirio bod eu hasiantau tollau yn barod i ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3zGrP7q

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru